

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 18^{fed} CHWEFROR 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol:
Cynghorwyr:
Bedwyr Gwilym - Cadeirydd
Erwyn Jones
Mel Goch ap Meirion
Will G Roberts
Annwen Daniels
Kevin Baldwin

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Rory Francis
Ronwen D Roberts

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gyngorydd Datgan Diddordeb

1. Caeau Chwarae

Unwaith eto ni chafwyd adroddiad yr archwiliwr ar gyflwr y caeau chwarae mewn pryd at y cyfarfod. Mae'n hollol bwysig bod yr archwiliad yn cael ei wneud yn fisol er mwyn diogelwch plant.

Argymell: I yrru llythyr cryf iawn unwaith eto at yr archwiliwr caeau chwarae.

2. Parc Sglefrio

Cafwyd gwybodaeth bod cwynion wedi eu derbyn yn ddiweddar ynglŷn â gwydrau wedi eu malu ar hyd y Parc Sglefrio. Bu i'r Clerc fynd yno a chodi'r gwydrau ar unwaith ond cafwyd gwybod bod cyflwr gwael iawn a bod angen ei lanhau yn iawn. Does byth gwybodaeth wedi dod i law parthed pa bryd fydd goleuadau yn cael cyflenwad trydan. Cafwyd amcan bris am loches ieuenctid gan gwmni G L Jones. Nid yw'r Angry Scones Racing Team wedi dod a chopi o'u tystysgrif yswiriant.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth ac i drefnu i gael pris am lanhau'r Parc Sglefrio. I holi unwaith eto pa bryd fydd cyflenwad trydan ar gael i'r goleuadau. I holi cwmni G L Jones am bris ar gyfer lloches wedi ei osod mewn concrit. Nid yw'r Angry Scones Racing Team i ddefnyddio'r Parc Sglefrio hyd nes bydd copi o'u tystysgrif yswiriant i law.

3. Y Parc

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gosod siglen 'nyth deryn' yn y Parc a hefyd ynglŷn â lleoli cwrs golff gwirion yno. Cafwyd gwybodaeth bod angen trwsio'r teclyn codi'r rhwyd tenis. Cafwyd gwybodaeth bod Cyngor Gwynedd yn barod i symud Ymlaen gyda throsglwyddo rhydd ddaliad y Parc i'r Cyngor Tref.

Argymell: I archebu'r siglen cyn gynted â modd. I osod y cwrs golf gwirion ar yr hen gwrth tenis ond i gael mwy o fanylion parthed defnydd y cwrs. I wneud ymholiadau parthed trwsio'r teclyn codi'r rhwyd tenis. I sicrhau nad oes angen unrhyw waith cynnal a chadw ar y tir cyn arwyddo ar y rhydd ddaliad.

